

TELEDWYR ANNIBYNNOL CYMRU

POLISI DETHOL AC ARCHIFO

Gorffennaf 2006

RHAGARWEINIAD

- 1 Yn 1998, sefydlwyd polisi archifo gan S4C er mwyn diogelu deunydd crai ('rushes' yn benodol) o werth archifol a grëwyd wrth gynhyrchu rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C.
- 2 Cyhoeddwyd Cynllun Dethol ac Archifo sef cynllun gweithredu oedd yn amlinellu'r criteria ar gyfer dewis y deunydd o werth hanesyddol, ac yn cynnig system er mwyn trosglwyddo'r deunydd yma i storfeydd addas. Roedd y Cynllun Dethol ac Archifo yn cael ei ymgorffori yn y Cytundeb Comisiynu.
- 3 Darparwyd adnoddau canolog gan S4C er mwyn storio a chatalogio tapiau cynhyrchwyr rhaglenni S4C. Cynigwyd adnoddau'r llyfrgell ym mhencadlys S4C ar gyfer storio yn y De ac enillodd Clip Cymru'r tendr i gyflawni'r gwasanaeth yn y Gogledd. Yn ogystal, crëwyd bas data canolog, gyda manylion llawn cynnwys y tapiau neu'r siots, er mwyn catalogio'r cynnwys. Mae hyn yn adnodd gwerthfawr fydd yn caniatáu i gwmnïau fanteisio ac ymestyn y defnydd a wneir o'r tapiau.
- 4 Roedd S4C yn y cyfnod hynny (ac o dan eu Telerau Safonol) yn sicrhau aseiniad o'r hawlfraint yn y deunydd. Yn 2003 cytunodd TAC ac S4C ar delerau comisiynu newydd. Mae unrhyw ddeunydd a grëir gan y cwmnïau cynhyrchu wrth gynhyrchu rhaglenni o dan Telerau Masnach S4C, yn eiddo llwyr i'r cwmnïau. Yn sgil y newid yma mae S4C o'r farn nad y nhw ddylai gydlynw'r cynllun yn y dyfodol, ac wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r sector. Mae S4C yn croesawu ymrwymiad TAC ar ran y cwmnïau i barhau gyda'r broses o ddethol, a threfnu i gatalogio a storio'r deunydd o werth archifol.
- 5 Yn ogystal, ar gyfer y rhaglenni a gomisiynwyd cyn 2003, mae TAC ac S4C wedi cytuno y bydd y cyfrifoldeb ar gyfer archifo a storio'r deunydd i'r sector yn cael ei drosglwyddo i TAC ar ran y sector ac y bydd TAC yn creu Polisi a Chanllawiau ar gyfer y cwmnïau. Bydd cydnabod a gweithredu yn unol â'r Polisi yma yn ystyriaeth i S4C wrth benderfynu a fydd hawlfraint i'w ad aseinio i'r cwmnïau.
- 6 Ni fydd S4C yn parhau i gynnig nag ariannu gwasanaeth storio ar gyfer deunydd crai a/neu tapiau diogelwch yn y dyfodol.

POLISI ARCHIFO TAC

Mae TAC yn awyddus i sicrhau parhad o'r egwyddorion ym Mholisi a Chynllun Dethol ac Archifo S4C ac yn annog y cwmnïau cynhyrchu i ddethol, logio a storio deunydd crai a rhaglenni. Mae TAC yn cynnig canllawiau er mwyn sefydlu a chynnal trefn ar gyfer adnabod a logio deunydd, yn ogystal â chanllawiau ar gyfer storio deunydd i sicrhau bywyd y cynnyrch. Mae'r canllawiau yma mewn tri rhan:

- Cam 1 - Dethol y rhaglen yn y cyfnod comisiynu/cyn cynhyrchu
- Cam 2 - Paratoi log a chyfleu'r deunydd sydd wedi ei ddethol i'r stordy (cyfnod cynhyrchu / ôl gynhyrchu)
- Cam 3 - Ail asesu'r deunydd ar adegau penodol yn y dyfodol

Mae TAC yn adnabod y dylai trefn o'r fath fod yn sylfaen dda er mwyn manteisio ar y cyfleoedd masnachol yn y deunydd, a chaniatáu i'r cwmnïau ymelwa ar yr hawliau a sicrhawyd yn y Ddeddf Gyfathrebu ac unrhyw hawliau sydd yn cael eu had aseinio.

CANLLAWIAU GWEITHREDU TAC - CYNLLUN DETHOL AC ARCHIFO

CAM 1 - DETHOL

- 1 Mae TAC yn cynnig canllawiau /criteria i roi arweiniad am y math o ddeunydd a rhaglen fyddai'n addas i'w dethol. Mae'r canllawiau yma wedi eu cynnwys fel Atodiad 1.
- 2 Bydd y cwmni cynhyrchu ac S4C, wrth lenwi'r manylion yn y Brîff Golygyddol a Busnes, yn adnabod y math o ddeunydd/y rhaglenni hynny sydd i'w dethol dan y Cynllun.
- 3 Dylai'r cynhyrchydd sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i weithredu yn ôl y Cynllun Dethol ac Archifo (llafur i ddethol a logio, a chyfleu'r manylion perthnasol). Bydd angen nodi'r amserlen ar gyfer cyfleu'r tapiau/ffurflen logio yn y Brîff Golygyddol a Busnes.
- 4 Mae'r Brîff Golygyddol a Busnes yn ffurfio rhan o'r Drwydded/Cytundeb Comisiynu a bydd disgwyl i'r cwmnïau weithredu yn ôl y manylion a'r dyddiadau.

CAM 2 - CYFLEU'R DEUNYDD

- 1 Yn syth wedi darlledu/golygu bydd angen chwynnu drwy'r holl ddeunydd sy'n deillio o gynhyrchu rhaglen gan ddewis a dethol y deunydd sydd o werth archifol a masnachol yn unol a'r canllawiau yn Atodiad 2 - Canllawiau Dethol Manwl (gelwir y gwaith yma'n 'Pwynt Asesu 1')
- 2 Dylid darparu ffurflen logio ar ffurf safonol (y ffurflen sydd i gymryd lle yr hen Ffurflen Logio sef PAC C). Mae copi o'r ffurflen ar gael fel Atodiad 3 a bydd copi electroneg ar gael gan TAC. Bydd y ffurflen i'w chyfleu i'r adnodd storio yn uniongyrchol gyda chopi i Llyfrgell S4C.
- 3 Bydd gan y cwmnïau cynhyrchu'r dewis i storio'r deunydd yn ganolog mewn storfeydd pwrpasol neu yn eu storfeydd neu eu llyfrgelloedd eu hunain (o dan amodau storio derbyniol na fyddai'n debygol o arwain at ddirywiad corfforol y tapiau). Mae Canllawiau TAC yn amlinellu'r safon ar gyfer storio deunydd, ac mae hyn wedi ei amgáu fel Atodiad 4.

CAM 3 - ADOLYGIADAU O DRO I DRO

- 1 Awgrymir y dylid asesu a chwynnu'r deunydd (h.y. y tapiau a'r/neu'r logiau) yn rheolaidd ('Pwynt Asesu 2'). Bydd hyn yn sicrhau bywyd y tapiau ac yn adolygu'r criteria dethol gan bod deunydd yn gallu newid ei statws o dan y Cynllun yma. Nod y Pwynt Asesu yma yw cymryd camau pendant i ddiogelu unrhyw ddeunydd sydd ag iddo werth archifol.
- 2 Bydd TAC yn adolygu'r holl gynllun o dro i dro ac yn cymryd barn a chynghor arbenigwyr (e.e. ymgynghorwyr yn y maes neu archifdai/llyfrgelloedd) er mwyn ystyried datblygiadau technegol, amodau/safonau a gofynion diogelwch storio mewn gwahanol fformatau, criteria asesu, addasrwydd y logio a gwerthoedd/oblygiadau defnydd masnachol.

Mae TAC wedi cytuno y bydd gan S4C yr opsiwn i drosglwyddo'r deunydd i S4C lle mae'r Cwmni wedi penderfynu gwaredu'r tapiau neu lle nad yw'r cwmni yn cydymffurfio gyda'r safonau sydd wedi eu hamlinellu ym mholisi / cynllun TAC.
- 3 Bydd TAC yn adolygu'r cynllun ar adeg briodol er mwyn ymestyn ystod y polisi i gynnwys dogfennau, ffeiliau electroneg, deunydd rhaglenni ac unrhyw ddeunydd arall allai fod yn berthnasol i'w archifo yn y dyfodol.

ATODIAD 1 - CANLLAWIAU DETHOL (PWYNT ASESU 1)

Dylid trafod os yw'r rhaglen sydd i'w chomisiynu yn cynnig gwerth archifol [a/neu fasnachol] yn ôl y criteria canlynol:-

Ydi'r rhaglen yn debygol o gynnwys deunydd

- A** o natur ffeithiol allai fod o werth hanesyddol.
- B** o ddiddordeb cymdeithasol a diwylliannol:
- sy'n ddrych o agweddau a materion cyfoes
 - sy'n gofnod o'r newidiadau amlycaf mewn ymarweddiad a sentiment cenedlaethol
 - sy'n gofnod o'r modd y bu i'r cyfrwng ymdrin â materion sensitif y dydd e.e. mewn operâu sebon a sioeau trafod
 - sy'n ddrych o ffasiwn a 'trends' y cyfnod
- C** sy'n cynnwys cyfweiliadau o werth hanesyddol, diwylliannol ac addysgiadol e.e. o wleidyddion, actorion, a pherfformwyr ac awduron blaenllaw.
- CH** sydd yn sampl o gyfranwyr amlwg i'r sianel e.e. gwaith creadigol awduron, sgriptwyr, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr amlwg, neu enghreifftiau o waith perfformwyr ac actorion amlwg.
- D** sy'n gofnod daeryddol o leoliad, adeilad, proses ddatblygiadol, gwrthrych neu ryfeddod naturiol.
- DD** sy'n gofnod o ddigwyddiad o natur artistig neu gelfyddydol neu'n achlysur blynyddol o ddiddordeb Cenedlaethol e.e. Eisteddfod yr Urdd, Gwobrwyo *Cân i Gymru* ayb.
- E** sy'n adlewyrchu'r newidiadau ym mhatrwm darlledu a chyflwyno S4C:
- Deunydd sy'n gofnod o ddigwyddiad neu achlysur arwyddocaol yn hanes y Sianel
 - Deunydd sydd ynghlwm wrth raglenni a gynhyrchir fel rhan o ymgyrch Genedlaethol neu elusennol
 - Deunydd sy'n adlewyrchu'r datblygiadau mewn steil cyflwyno a chyfarwyddo
 - Deunydd sy'n ddrych o ddatblygiadau technegol (graffeg, dylunio, cyfrifiadurol, logos).
- F** sydd yn lluniau stoc a *footage* defnyddiol y gellir eu crynhoi ar gyfer eu hail ddefnyddio. Cynhwysa'r rhain siots stoc (GV's) o dirluniau, bywyd gwylt, natur dymhorol, lluniau a dynnwyd o'r awyr ayb.
- FF** allai gynnwys nodweddion iaith a thafodiaith.

ATODIAD 2 - CANLLAWIAU DETHOL MANWL (PWYNT ASESU 2)

CRITERIA

Mae'r cynllun yn berthnasol i'r:

1 Tapiau Crai ('rushes')

Y tapiau ar unrhyw fformat sy'n glwm â'r broses o gynhyrchu rhaglen, ond efallai na olygwyd, neu nad oedd yn rhan o'r rhaglen orffenedig. Noder bod dwy lefel o werth i'r deunydd crai, yn unol a'r Telerau Masnach. Mae'r categorïau wedi eu nodi isod (2.8).

2 Rhaglenni gorffenedig

Mae pob cytundeb comisiynu yn mynnu bod y cwmnïau cynhyrchu yn cadw copi diogelwch (*safety copy*) o unrhyw raglen a gomisiynwyd gan S4C.

Gellir mesur gwerth y tapiau crai / deunydd sydd ynghlwm wrth y rhaglenni gorffenedig yn ôl y criteria dethol canlynol ac fe'u hawgrymir fel canllaw i ddethol tapiau sydd angen eu cadw / gwaredu. Ceir manylion neu esboniad llawn isod:

- 2.1 Cyfweiliadau
- 2.2 Lluniau Gweledol / GV's
- 2.3 Cerddoriaeth a Pherfformiadau Artistig
- 2.4 Deunydd sy'n nodweddiadol o amser / cyfnod arbennig neu'n gofnod o ddigwyddiad arwyddocaol
- 2.5 "Out takes" / "fflyffs doniol"
- 2.6 Nodweddion iaith a thafodiaith
- 2.7 Smotyn Coch/deunydd crai o werth uwch

2.1 Cyfweiliadau

Dylid asesu cyfweiliad ar sail enwogrwydd y person neu arwyddocâd cynnwys y cyfweiliad, ond yn gyffredinol dylid cadw rushes cyfweiliadau sydd â / yn:

- Pobl enwog / adnabyddus, e.e. o fyd teledu, ffilm, celf, theatr, cerddoriaeth.
- Actorion.
- Awduron.
- Gwerth hanesyddol, e.e. cyfweiliadau gan wleidyddion, artistiaid blaenllaw (ac ifanc), perfformwyr, neu gyfweiliadau a ffilmwyd yn ystod digwyddiadau neu achlysuron arwyddocaol / hanesyddol sy'n cofnodi'r digwyddiad, profiad neu gyfnod e.e. canlyniad etholiad neu seremoni o ddi-ddordeb cenedlaethol.
- Arbenigwyr Meysydd Arbennig, hynny yw cyfweiliadau estynedig â phobl mewn meysydd penodol, e.e. chwaraeon, diwydiannau amrywiol, garddio.
- Cofnod cymdeithasol, e.e. trafod profiadau, materion llosg neu feddylfryd cymdeithasol, neu esiampl dda o ffasiwn a 'trends' cyfnod.

2.2 Lluniau Gweledol / GV's

- Cofnod daearyddol a hanesyddol o leoliad, adeilad neu ddinas, efallai cyn unrhyw newidiadau arwyddocaol, e.e. adeilad / ardal sydd wedi diflannu neu newid.

- Gwrthrychau / Delweddau bywyd pob dydd (trefn neu ddinesig) / Diwydiant / Amgylcheddol - ffatrïoedd, gweithfeydd, traffig, siopwyr, goleuadau traffig, trafndiaeth e.e. awyrennau, ceir, beiciau modur, bysiau.
- Adeiladau / Pensaerniaeth arbennig, e.e. cestyll, amgueddfeydd, eglwysi, meysydd chwaraeon, pontydd.
- Tirluniau - gwledig, dinesig, diwydiannol, amaethyddol - boed yn rhai “traddodiadol”, “pert”, “modern”.
- Bywyd gwyllt: anifeiliaid, planhigion, blodau, cynydu, coed.
- Ardaloedd a lleoliadau arbennig, e.e. pentrefi, dinasoedd, bröydd, ond angen logs clir o’r ardal, sir, enwau nodweddion a lleoliadau enwog / adnabyddus yng Nghymru a byd-eang e.e. yr Wyddfa, Big Ben, twr Eiffel, olion hanesyddol, cofgolofnau, cerrig bedd, atyniadau cyhoeddus.
- Natur dymhorol - siots yn cynrychioli nodweddion traddodiadol, newydd a “quirky” y tymhorau, e.e. tai wedi eu haddurno â goleuadau Nadolig.
- Rhyfeddodau naturiol / tywydd, e.e. ogofau, pistyll / rhaedrau, môr, llyn, traeth braf, llifogydd, corwynt.
- GV’s a dynnwyd o’r awyr, e.e. gwledig, diwydiannol, dinesig.
- Proses ddatblygiadol, e.e. lluniau “time-lapse”, adeiladau yn codi.

2.3 Cerddoriaeth a Pherfformiadau Artistig

- Cyngherddau pop.
- Nosweithiau Llawen.
- Perfformiwr unigol.
- Cystadleuwyr a phigion Eisteddfodol.
- Cyngerdd clasurol, opera neu ballet, symffoni glasurol o arwyddocâd byd eang neu o berthnasedd Cymreig.
- Cyngerdd gwerin o berthnasedd Cymreig.
- Barddoniaeth.
- Achlysur blynyddol o ddiddordeb Cenedlaethol.

Mae angen cadw cofnodi:

- cofnod o berfformiad neu waith cerddor, perfformiwr neu gyfansoddwr enwog.
- gwaith / perfformiad cyntaf cerddor neu gyfansoddwr ifanc.
- detholiad neu gofnod o waith perfformwyr neu artistiaid na chynhwyswyd yn y rhaglen orffenedig
- cystadleuydd Eisteddfodol (sy’n dueddol o ddod i’r brig yn flynyddol) sy’n dangos addewid amlwg ar gyfer y dyfodol.

2.4 Deunydd sy’n nodweddiadol o amser / cyfnod arbennig neu’n gofnod o ddigwyddiad arwyddocaol

- Chwaraeon
- Technoleg
- Masnach
- Ffasiwn
- Diwylliant
- Celf
- Bywyd Cymdeithasol
- Ddigwyddiad hanesyddol, e.e. protest, dathliad, digwyddiadau cyhoeddus, etholiad, ymgyrch cenedlaethol.

2.5 “Out takes”/ “Fflyffs Doniol”

- “Fflyffs doniol”, hynny yw lle bo person (actor, cyflwynydd, cyhoedd) yn gwneud cawlach o’i linellau, symudiadau.
- Cofnod o ddigwyddiad doniol.

****Awgrymir crynhoi’r math yma o siots ar un tâp yn ystod y broses olygu****

2.6 Nodweddion iaith a thafodiaith.

- Tafodiaith mewn perygl o ddiflannu.
- Caneuon gwerin o ardaloedd arbennig.

2.7 Y Smotyn Coch: Diogelu deunydd archifol sydd o natur gyfrinachol neu sensitif

- Mae system y ‘Smotyn Coch’ yn berthnasol i rai golygfeydd, siots neu gyfweliadau sy’n cael eu hystyried i fod o natur archifol arbennig a hynny oherwydd eu bod yn cynnwys deunydd cyfrinachol, sensitif neu honiadau enllibus neu ymosodol.
- Oherwydd natur unigryw’r deunydd yma, ni chaniateir i unrhyw drydydd parti i wyllo’r deunydd heb drafodaeth a chael caniatâd y cwmni cynhyrchu gwreiddiol.
- Mae’r adolygiadau / ail asesu (Cam 3 o’r Cynllun) yn berthnasol wrth drin deunydd ‘Smotyn Coch’ gan y bydd amser yn ffactor amlwg ym mhroses cydnabod deunydd o’r fath. Ar yr Adeg Asesu, gall deunydd sydd wedi ei glustnodi yn wreiddiol fel deunydd ‘Smotyn Coch’ gollu ei statws wedi i gyfnod o amser fynd heibio. Yn yr un modd, ar adeg yr ail asesiad neu wedi digwyddiad penodol a all amharu ar ei bwysigrwydd, gall deunydd cyffredinol archifol newid i fod yn ddeunydd ‘Smotyn Coch’ yn y dyfodol.

2.8 Deunydd Crai o Werth Arferol a Deunydd Crai o Werth Uwch (*enhanced value*)

Mae’r Telerau Masnach yn cydnabod dwy lefel o werth i’r deunydd crai (rushes). Mae’r gwerth uwch yn berthnasol i rai golygfeydd, siots neu gyfweliadau sy’n cael eu hystyried i fod o gynnwys arbennig o werthfawr yn fasnachol neu o natur archifol arbennig, a hynny oherwydd eu bod yn cynnwys deunydd unigryw. Telir ffi uwch am glipiau o ddeunydd crai o werth uwch ac mae manylion y ffi wedi eu cynnwys yn Atodiad VI Tabl 4 yn y Telerau Masnach.

ATODIAD 3 - FFURFLEN LOGIO TAC

Logio - canllaw ar gyfer cwblhau'r ffurflen

- 1 Rhaid i'r cyflenwyr logio cynnwys y tapiau (neu siots perthnasol) a ddyfernir o werth archifol neu fasnachol (a hynny yn unol â'r Canllawiau Dethol Manwl yn Atodiad 2).
- 2 Awgrymir y dylid cofnodi cynnwys y tapiau **yn syth wedi saethu neu ddarlledu'r rhaglen neu'r gyfres**, neu chyn agosed i hynny ac sy'n ymarferol bosib.
- 3 Rhaid darparu'r wybodaeth berthnasol am bob tâp (neu rannau o'r tâp) drwy fwydo'r wybodaeth i'r ffurflen logio pwrpasol (gweler isod). Bydd yr wybodaeth yma yn cynnwys teitl y rhaglen, rhif y cynhyrchiad, dyddiad saethu, dyddiad darlledu ynghyd â gwybodaeth dechnegol am ei fath, manylion yr hawliau a chrynodeb bras o gynnwys y tâp.
- 4 Bydd yn ofynnol i'r cynhyrchwyr sydd yn dewis storio eu hunain **drosglwyddo copïau o'r cofnod o gynnwys bob tâp unigol i'r storfa/adnodd i'w logio i'r system gatalogio ganolog.**

Ffurflen Logio TAC

Mae'r ffurflen wedi ei chynnwys fel ffeil ar wahan i'r polisi hwn - cyfeirnod ffeil Atodiad 3 - Ffurflen Logio TAC Cymraeg FT. doc'. Mae'r ddogfen wedi ei diogelu rhag newid y fformat.

ATODIAD 4 - CANLLAWIAU STORIO

- 1 Gall cwmnïau cynhyrchu gadw a storio tapiau yn eu swyddfeydd neu eu llyfrgelloedd eu hunain os yw eu tapiau yn cael eu storio dan amodau addas (sydd ddim yn debygol at arwain at ddirywiad corfforol y tapiau a'r deunydd). Bydd gofyn sicrhau nad yw'r deunydd:
 - > yn cael ei storio mewn amodau llaith e.e. mewn seler neu atig
 - > yn agos i reiddiaduron
 - > mewn ystafell olau iawn (dan fflurolau llachar)
 - > mewn ystafell lychlyd
 - > a bod y tapiau yn cael eu storio ar silffoedd addas ac nid mewn bocsys neu gypyrddau

- 2 Lle'r bod hi'n addas ac yn briodol i gwmnïau gadw a storio tapiau yn eu swyddfeydd neu llyfrgelloedd eu hunain, fe fydd dyletswydd ar y cwmnïau i sicrhau fod copi 'master' o'r deunydd o werth archifol arbennig e.e. deunydd Smotyn Coch, yn cael ei storio mewn man diogel ac mewn storfa addas, doed a ddelo.

ATODIAD 5 - CANLLAWIAU ADOLYGU

Adolygu ac Ail Asesu'r Tapiau/Logiau

- Nod yr adolygiad neu'r ail asesiad yw rheoli nifer a natur y deunydd a gedwir.
- Dylid asesu'r tapiau crai ar gyfer eu cadw / ailgylchu / gwaredu ar yr adegau asesu canlynol:

5 Mlynedd Wedi Darlledu

Ail-asesu'r deunydd ar gyfer cadwraeth tymor-hir ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd. Bydd y cyfnod hwn yn rhoi amser i'r deunydd amlygu ei werth hanesyddol, diwylliannol a masnachol.

Ni fydd unrhyw ddeunydd a gedwir yn cael eu hailgylchu na'u gwaredu heb ymgynghori â'r cwmni cynhyrchu gwreiddiol ac S4C yn gyntaf.

10 Mlynedd wedi Darlledu

Ail-asesu'r deunydd eto wedi cyfnod o ddeng mlynedd wedi darlledu. Erbyn y cyfnod hwn bydd y deunydd sydd wedi ei ddyfarnu o werth archifol tymor-hir i'w gadw am byth.

Ac ar unrhyw adeg briodol arall wedi'r uchod.